Gwahoddwyd y sawl oedd â diddordeb i weld parhad y broses heddwch yng Ngogledd Iwerddon i wasanaeth arbennig ddydd Sul, 21ain o Fawrth 2004 yn eglwys Salem, Tregana, Caerdydd, gan Cwlwm Cymod Cymru-Corrymeela, dan nawdd Cymdeithas y Cymod.

Cawsom wasanaeth cydenwadol dwyieithog yn ymdynghedi i weithio a gweddïo i greu pontydd dros y gwahanfuriau cymdeithasol, crefyddol a gwleidyddol sy yng Ngogledd Iwerddon, yng Nghymru ac ar draws y byd.

Diolchwn i Dduw bod ysbryd cymod a chariad Corrymeela wedi dod â phobl Caerdydd a ffrindiau Corrymeela yn yr holl amrywiaeth a welsom yn Salem y prynhawn hwnw at ei gilydd yn unedig yn moli Duw ac yn profi gwyrth tywalltiad yr Ysbryd Glân.

CHYMDEITHAS Y CYMOD
YNG NGHYMRU

THE FELLOWSHIP OF
RECONCILIATION IN WALES

Hoffwn gael rhagor o wybodaeth am Gymdeithas y Cymod.

I would like further information about the Fellowship of Reconciliation in Wales.

Enw / Name

Cyfeiriad / Address

Ffôn / Phone

E-bost / E-mail

Anfoner at / Please send to:

Cymdeithas y Cymod,
d/o 3 Tai Minffordd, Rhostryfan,
Caernarfon, Gwynedd LL54 7NF.

Cymdeithas y Cymod

Fellowship of Reconciliation in Wales

Corrymeela



www.cymdeithasycymod.org.uk

Elusen gofrestredig 700609

Gyda'n gilydd gweithiwn dros gyfiawnder a thangnefedd

Mae Canolfan Cymod Corrymeela yng Ngogledd Iwerddon yn ceisio dod â Chatholigion a Phrotestaniaid at ei gilydd mewn awyrgylch nad yw'n fygythiad i'r naill 'ochr' na'r llall, ond yn hytrach yn rhoi cyfle i adnabod ac i ymddiried yn ei gilydd ac i chwilio am y ffordd ddi-drais o gyd-fyw.

Gweledigaeth gwr hynod o'r enw Ray Davey oedd sefydlu Corrymeela yn 1965, ac ers hynny mae wedi denu rhwydwaith o ffrindiau a dolenni dros y byd.

Ym 1991, bu'r Fam Teresa yno, a defnyddiodd hi eiriau enwog gweddi Sant Francis i gyfleu'r hyn mae'r gymuned hon yn ei gynrychioli: "yn dod â goleuni lle mae tywyllwch, llawenydd lle mae tristwch, a gobaith lle mae anobaith" ymysg y rhaniadau chwerw yng Ngogledd Iwerddon.

Mae miloedd o ddynion, gwragedd a phlant yn ymweld â'r ganolfan bob blwyddyn, a thrwy'r cariad a'r ysbryd gweddigar maen nhw'n eu teimlo yno mae'r gelyniaeth yn lleihau.

Gellir gweld hanes Corrymeela ar y We Fyd-eang ar

www.corrymeela.org

gyda manylion am y cyfleoedd sydd ar gael i bobl wirfoddoli bob haf.

Mae rhagor o wybodaeth am Cwlwm Cymod Cymru-Corrymeela ar gael gan Nia Rhosier, Tŷ Hen Gapel John Hughes, Pontrobert, Meifod, Powys SY22 6JA. Ffôn: 01938-500631.

Sefydlwyd Cwlwm Cymod Cymru-Corrymeela ym mis Mawrth 2000 yn ddolen gyswllt rhwng Cymru a Corrymeela. Erbyn hyn mae llawer o gefnogwyr, a bu amryw o Gymry, gan gynnwys criw o Gymdeithas y Cymod, yn ymweld â Corrymeela ar arfordir gogledd Antrim yn ystod Hydref a Thachwedd blwyddyn hunllefus Medi'r 11eg.

Cynhelir oedfa 'Sul Corrymeela' Cymru mewn lleoliad gwahanol bob blwyddyn ers yr un gyntaf yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy ym Mawrth 2002.

Gobeithir medru gwahodd pobl ifainc o Ogledd Iwerddon draw i Gymru yn y dyfodol agos, er mwyn iddynt gael syniad ynglŷn â'n hymdrechion ni i orseddu'r ffordd ddi-drais.